CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 2il o CHWEFROR 2021 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr A.Hopcyn, E.R.Hughes, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, W.R.Owen, J.W.Parry, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

---

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr W.L.Davies, B.Owen, K.Richards

2. Cyhoeddiadau'r Maer

(1) Profedigaeth

Cyfeiriodd y Maer at farwolaeth Captain Sir Tom Moore, oedd wedi gwneud llawer o waith da i godi arian yn ystod y pandemig. Cydymdeimlodd a'i deulu yn eu profedigaeth.

(2) Gwaeledd

Cyfeiriodd y Maer at waeledd y canlynol, a dymunodd iddynt adferiad llwyr a buan:

- Y Cynghorydd W.L.Davies.
- Mrs Iona Jones, mam yng nghyfraith y Clerc.

3. Datgan Buddiant Personol

Y Cynghorydd J.W.Parry – eitem 4(2)
Y Cynghorwyr A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, R.Thomas – eitem 9
Y Cynghorydd I.C.Thomas – eitem 19

Gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

(1) Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd A.Hopcyn

Nododd y Clerc y derbyniwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd A.Hopcyn mewn da bryd. Fodd bynnag roedd y rhaglenni wedi eu hargraffu'n gynt y tro

hwn gan nad oedd Rhyngrwyd Adeilad yr Institiwt yn gweithio. Gan hynny, caniatawyd trafodaeth ar yr isod:

"I nodi Dydd Gŵyl Dewi 2021, mae'r Cyngor yn galw ar fusnesau mawr* y dref i gynnig y Gymraeg fel y dewis cyntaf (default) ar beiriannau hunanwasanaeth eu siopau."

* Morrisons, Asda, Tesco

Penderfynwyd, i nodi Dydd Gŵyl Dewi 2021, gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Morrisons, Asda a Tesco yn galw arnynt i gynnig y Gymraeg fel y dewis cyntaf (default) ar beiriannau hunanwasanaeth eu siopau.

Gadawodd y Cynghorwyr W.Roy Owen a J.W.Parry y cyfarfod am 7.00 p.m.

(2) Balot HWB

Nodwyd fod balot yr ardaloedd gwella busnes yn cymryd lle fis Mawrth a bod y Cyngor Tref yn cael pleidlais. Gan hynny roedd angen penderfyniad o ran sut roedd pleidlais y Cyngor Tref am fynd.

Penderfynwyd fod y Cyngor Tref yn pleidleisio o blaid parhad HWB rhwng 2021 a 2026 (unfrydol).

(3) Rhyngrwyd Adeilad yr Institiwt

Nodwyd bod BT wedi bod yn gweithio ar Ryngrwyd newydd i Adeilad yr Institiwt ers dechrau mis Ionawr a bod yr amserlen roedd hyn yn ei gymryd, erbyn hyn, yn annerbyniol.

5. Cofnodion

Cadarnhawyd y cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 5ed o Ionawr 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

ii. Pwyllgor Adloniant – 12fed o Ionawr 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

6. Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu.

7. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd:
(1) Derbyn er gwybodaeth.

(2) Newid y cyfeiriad at Michael a Marian Lambrecht i ddarllen Michael a Marian Lambert Jones.

8. Maerolaeth

Enwebu Maer etholedig am y flwyddyn 2021/22.

Cynigwyd y Cynghorydd M.Sarnacki gan y Cynghorydd A.Hopcyn a bu i'r Cynghorydd J.W.Parry eilio'r cynnig.

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd M.Sarnacki fel Maer etholedig am 2021/22.

9. Cofis Curo Corona

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod.

Nodwyd:

(1) Bod y Cyngor wedi sefydlu trefn lle'r oedd cyfraniadau yn cael eu rhoi i fudiadau lleol o Gronfa Argyfwng y Cyngor yn ystod y pandemig.
(2) Bod y Canllawiau gafodd eu defnyddio yn seiliedig ar rai roedd Cyngor Tref Amwythig yn ei ddefnyddio.
(3) Y drefn oedd bod y Cydlynwyr Cofis Curo Corona (CCC) yn gwneud argymhelliad ar bob cais, ac roedd yr argymhelliad yn cael ei basio heibio holl aelodau'r Cyngor Tref.
(4) Y cafwyd cyfarfod ar y 19eg o Ionawr rhwng Cydlynwyr CCC a chynrychiolydd Cyngor Gwynedd er mwyn trafod y trefniadau o ran y Cyfnod Clo. Nodwyd fod pethau wedi distewi o'i gymharu â'r Cyfnod Clo cyntaf. Erbyn hyn roedd y mwyafrif llethol o bobl yn gwybod lle i fynd i gael cymorth, ond bod angen edrych allan am y rhai allasai ddisgyn trwy'r rhwyd. Roedd y fferyllfeydd efo rhifau ffôn y Cydlynwyr.
(5) Yn y cyfarfod penderfynwyd:

"(1) Peidio â mynd yn ôl i'r hen drefniadau o ran y Cyfnod Clo cyntaf gan nad oedd angen, ac nad oedd yn ymarferol, gwneud hynny. Golygai hyn peidio hysbysebu yn agored fod cymorth ar gael gan CCC.
(2) Bod Sion yn anfon union ddyddiau ac oriau agor Adeilad yr Institiwt i Rhian, fel bod y manylion yn gallu cael eu rhoi ar y Cyfeirlyfr. Os fyddai ymholiadau am gymorth yn dod i law, bydd Sion a Dewi yn eu pasio i'r Cydlynwyr trwy'r grŵp WhatsApp."

(6) Nodwyd yn y cyfarfod y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn er mwyn trafod sefyllfa ariannol y gronfa, ac i edrych eto ar y Canllawiau, ac i ofyn am arweiniad y Cyngor ar y materion canlynol:

- Clustnodwyd uchafswm o £8,000 i helpu sefydliadau lleol. Erbyn hyn bydd angen penderfyniad os am gynyddu hwn ai peidio os am ddiwallu'r ceisiadau sydd wedi dod i law.

- Clustnodwyd hyd at uchafswm o £ 500 y sefydliad. Nid yw'r canllawiau yn sôn am sefydliadau sy'n rhoi cais i mewn mwy nag unwaith. Beth yw teimlad yr aelodau?

Penderfynwyd:

(1) Cynyddu'r swm yn y gronfa o £5,000 i wneud cyfanswm o £13,000.
(2) Parhau gydag uchafswm o £500 o gyfraniad i bob sefydliad.
(3) Nad oedd gwrthwynebiad i sefydliadau roi ail gais i mewn, os oedd digon o amser wedi mynd heibio ers y cais cyntaf.

10. Yr Heddlu

Nodwyd y cafwyd cyfarfod gyda'r Heddlu cyn y Nadolig, a chafwyd cytundeb yn y cyfarfod y byddai'n syniad eu gwahodd i'r Cyngor Llawn yn rheolaidd.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc wahodd yr Heddlu i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn rheolaidd, bob tri mis.

11. Diffribrilwyr (Defibs)

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Glerc yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa o ran defibs yng Nghaernarfon.

Nodwyd:

(1) Bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod ar y 1af o Ragfyr 2020:

"Gofyn i'r Dirprwy Glerc

(1) Wneud map o'r ddarpariaeth Defibs yng Nghaernarfon a rhoi arwyddion i fyny o ran eu lleoliadau.
(2) Edrych mewn i'r defnydd o Defibs."

(2) Bod y gwasanaeth ambiwlans yn cadw rhestr o leoliadau diffibrilwyr ar eu gwefan.
(3) Y cymharwyd nifer a lleoliad ein diffibrilwyr gyda dwy dref arall, Treffynnon, sydd o faint tebyg ond yn derbyn llai o ymwelwyr, a Porthmadog sydd tua hanner y maint ond yn derbyn nifer uchel o ymwelwyr. Mae nifer y diffibrilwyr yng Nghaernarfon tua dwbl yr hyn sydd yn y naill dref a'r llall.
(4) Mai dim ond un o'r 19 sy'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan y Cyngor Tref. Mae'r diffibrilwr yma wedi ei defnyddio 3 gwaith yn y flwyddyn ariannol 2020-21.
(5) Bod y Cynghorydd Roy Owen wrthi yn trefnu diffibriliwr arall yn Siop yr Hendre fydd yn cynyddu'r nifer yn y dref i 20.

Nodwyd bod trefniadau ar waith i gofrestru'r deffib yn y Clwb Rygbi.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

12. Tân Gwyllt

Cyflwynwyd yr ymateb a gafwyd gan Siân Gwenllian AC, i'r llythyr anfonwyd ati fel canlyniad i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Jason Parry.

Diolchodd y Cynghorydd Jason Parry i'r Cyngor Tref am ddilyn y mater i fyny.

Penderfynwyd nodi'r ymateb.

13. Papur Cyflogaeth Twristiaeth Cymru

Cyflwynwyd dogfen Cylch yr Iaith ynglŷn â Thwristiaeth yng Nghymru.

Nodwyd fod gwaith manwl a diddorol wedi ei wneud ar yr adroddiad.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

14. Diwrnod Gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol & Rheng Flaen – 5ed o Orffennaf 2021

Cyflwynwyd gohebiaeth o ran yr uchod.

Penderfynwyd rhoi hwn gerbron y Pwyllgor Adloniant.

15. Cofrestrfa Tir EM – Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Cyflwynwyd gwybodaeth am arolwg sydd angen ei gwblhau erbyn y 26ain i Chwefror.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gwblhau'r arolwg erbyn y 26ain i Chwefror.

16. Lleoedd ar Hyfforddiant

Cyflwynwyd gwybodaeth bod lleoedd hyfforddiant yn rhad ac am ddim ar gael ar gyfer modiwlau craidd Unllais Cymru, ac y dylai'r aelodau gysylltu efo'r Clerc os oedd ganddynt ddiddordeb.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

17. Cwestiynau

(1) Codi 10% ychwanegol am barcio

Gofynnodd y Cynghorydd Cai Larsen os oes unrhyw wybodaeth bellach wedi dod i law gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r cynllun codi 10% ychwanegol am barcio.

Nododd y Clerc y bydd yn gwneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd.

(2)Caeau Chwarae

Gofynnodd y Cynghorydd Cai Larsen os oedd y Clerc wedi clywed unrhyw beth pellach gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â chynllun y Cyngor Tref i brynu cyfarpar i rai o gaeau chwarae'r dref.

Nododd y Clerc ei fod wedi cael cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, ac y bydd yn dod â'r mater gerbron y Pwyllgor Gwaith.

(3) Baw Cwn

Gofynnodd y Cynghorydd Maria Sarnacki beth y gallem ei wneud am y sefyllfa baw cŵn yng Nghaernarfon, gan fod y sefyllfa'n mynd yn waeth, a nododd y Clerc y bydd yn gwneud ymholiadau.

18. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Gadawodd y Cynghorydd C.Williams y cyfarfod am 7.05 p.m.

19. Grant CaerAilGyfle

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod.
(Eitem Eithriedig)

20. Gwefan

Cyflwynwyd adroddiad llafar ar y gwaith o gael gwefan newydd i'r Cyngor.
(Eitem Eithriedig)

Penderfynwyd gwahodd y wasg a'r cyhoedd yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.15 p.m.

Arwyddwyd .....

Dyddiad .....